Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys Ofcom

Ystyriaeth o sancsiwn yn erbyn	Corfforaeth Teledu Channel Four mewn perthynas â'i wasanaeth Channel 4 a Sianel Pedwar Cymru mewn perthynas â'i wasanaeth S4C. [1]
Am	Toriadau i Gôd Darlledu Ofcom: • Rheol 2.3 - Rhaid i ddarlledwyr, wrth ddefnyddio safonau a dderbynnir yn gyffredinol sicrhau bod deunydd all greu sarhad wedi'i gyfiawnhau gan y cyd-destun; a • Rheol 1.3 - Rhaid hefyd amddiffyn plant rhag deunydd anaddas trwy amserlennu priodol
Ar	15, 17, 18, 19 Ionawr 2007
Penderfyniad	Cyfarwyddo Channel 4 ac S4C i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom ar ffurf a bennir gan Ofcom yn syth cyn dechrau darlledu'r rhaglen gyntaf o wythfed gyfres *Big Brother* ar Channel 4; yn syth cyn dechrau darlledu'r rhaglen gyntaf ail fersiwn o'r wythfed gyfres ar Channel 4; ac yn syth cyn dechrau darlledu'r rhaglen lle mae'r troi allan cyntaf o'r wythfed gyfres o *Big Brother* yn digwydd ar Channel 4.

[1] Mae'r darlledwr S4C yn darlledu cyfres *(Celebrity) Big Brother)* Channel 4 ar ei wasanaeth.

Crynodeb

1.1 Ar y sail y manylir arno yn y Penderfyniad, o dan y pwerau a ddirprwywyd gan Fwrdd Ofcom i Bwyllgor Sancsiynau Cynnwys Ofcom ("Y Pwyllgor") mae'r Pwyllgor wedi penderfynu gosod sancsiwn statudol ar Channel 4 ac S4C yng ngoleuni natur ddifrifol methiant gan Channel 4 i sicrhau cydymffurfiad â Chôd Darlledu Ofcom.

1.2 Mae'r dyfarniad hwn o dan y Côd Darlledu yn berthynol i'r bumed gyfres o Celebrity Big Brother . Cynhyrchir (Celebrity) Big Brother gan Brighter Pictures, rhan o Endemol UK plc (" Brighter Pictures") ac fe'i darlledir gan Gorfforaeth Teledu Channel Four (" Channel 4" neu'r "darlledwr") ar wasanaeth Channel 4. Darlledir y gyfres Big Brother hefyd gan S4C ar ei wasanaeth. Dechreuodd ar 3 Ionawr 2007 a rhedodd am 26 diwrnod tan 28 Ionawr 2007.

1.3 Mae Big Brother yn sioe deledu realiti lle mae enwogion yn cael eu cau gyda'i gilydd mewn amgylchedd sydd wedi'i rheoli (" y Tŷ") am gyfnod penodol o amser. Caiff pob ystafell (ac eithrio'r toiled a'r ystafelloedd cawod) a phob cystadleuydd eu recordio gan gamerâu a microffonau. Mae pob gweithred a sgwrs yn cael eu recordio 24 awr y dydd. Pob wythnos enwebir cystadleuwyr ar gyfer eu troi allan o'r Tŷ. Yna gadewir y penderfyniad terfynol ynglŷn â phwy sydd i'w troi allan i'r cyhoedd trwy gyfrwng pleidleisio ar y ffôn neu destun. Y preswylydd olaf ar ddiwedd y gyfres yw enillydd y sioe.

1.4 Wrth i'r bumed gyfres fynd rhagddi, dechreuodd anghydweld ddatblygu rhwng rhai o'r preswylwyr, yn enwedig rhwng Shilpa Shetty ar un llaw a Jade Goody, Jo O'Meara a Danielle Lloyd ar y llaw arall. Roedd gwylwyr, ac eraill oedd yn ymwybodol o'r digwyddiadau yn y Tŷ, yn mynd yn fwyfwy pryderus bod Shilpa Shetty yn destun bwlio, rhai yn honni bod y bwlio yn hiliol. Derbyniodd Ofcom ychydig dros 44,500 o gwynion am Celebrity Big Brother 2007.

1.5 O dan y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n ddyletswydd statudol ar Ofcom i osod safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni teledu a ddarlledir mewn Côd y mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio ag ef. Rhaid i Ofcom sicrhau bod darlledwyr yn cydymffurfio gyda'r Côd a pherfformio ei ddyletswyddau yng ngoleuni Cynhadledd Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sydd yn darparu ar gyfer hawl rhyddid mynegiant. Rhaid i Ofcom ymarfer ei ddyletswyddau yng ngoleuni'r hawliau hyn a pheidio ag ymyrryd gydag ymarferiad yr hawliau hyn mewn gwasanaethau darlledu oni bai ei fod yn fodlon bod y cyfyngiadau y mae'n ceisio eu gosod yn ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn angenrheidiol i gyflawni nod dilys.

1.6 Wth osod safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni teledu a ddarlledir, mae Ofcom yn ei gwneud yn ofynnol i ddarlledwyr sicrhau bod 'safonau a dderbynnir yn gyffredinol' yn cael eu gosod ar gynnwys rhaglenni teledu er mwyn darparu amddiffyniad digonol rhag cynnwys deunydd sarhaus neu niweidiol. O dan Gôd Darlledu (" y Côd") mae'n ofynnol i ddarlledwyr, wrth weithredu'r safonau hyn a dderbynnir yn gyffredinol, sicrhau bod deunydd all achosi sarhad yn cael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun. Mae cynnwys yn cynnwys materion fel cynnwys golygyddol y rhaglen, y gwasanaeth y caiff ei ddarlledu arno a disgwyliadau tebygol y gynulleidfa.

1.7 Wrth wneud ei arfarniad mae Ofcom wedi cymryd i ystyriaeth gynrychioliadau a wnaethpwyd gan Channel 4.[2]

1.8 Mae Channel Four yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus gyda chylch gwaith statudol unigryw i ddarparu amrediad eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel sydd, yn arbennig, yn dangos arloesi, arbrofi a chreadigrwydd ar ffurf a chynnwys rhaglenni; yn apelio at ddant a diddordebau cymdeithas ddiwylliannol amrywiol; yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddiwallu'r angen i sianeli gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig i gynnwys rhaglenni o natur addysgol a rhaglenni eraill o werth addysgol; ac yn dangos cymeriad arbennig.[3]

1.9 Mae cynrychioliadau Channel Four wedi eu hystyried a'u trin yn llawn yn yr arfarniad isod. I grynhoi, cyflwynodd Channel Four: roedd y digwyddiadau a ddarlledwyd wedi eu trafod yn gyfrifol; wedi eu hamserlennu a'u golygu yn briodol a'u cyfiawnhau gan fod y cyd-destun o fewn disgwyliadau cynulleidfa *Big Brother.* Roedd yn dal fod y gyfres wedi bod yn unol â'i gylch gwaith statudol. Roedd yn derbyn bod nifer o'r gynulleidfa wedi'u sarhau ond cyflwynodd bod materion rhyddid mynegiant pwysig yn y fantol. Roedd Channel Four yn ystyried bod yr hyn a ddigwyddodd wedi bod o 'werth cyhoeddus diamheuol' er gwaethaf y ffaith nad oedd wedi bwriadu creu dadl genedlaethol am hiliaeth. Oedd yn credu bod y darllediadau wedi bod yn gyfan gwbl mewn cydymffurfiad â'r Côd.

1.10 Wrth ystyried a fu toriadau i'r Côd, mae Ofcom yn cydnabod y gellir darlledu deunydd a allai fod yn sarhaus neu niweidiol yn gywir mewn cydymffurfiad â'r Côd cyn belled â bod ei gynnwys wedi'i gyfiawnhau gan y cyd-destun er mwyn darparu amddiffyniad digonol i aelodau'r cyhoedd. Nid yw'r Côd yn gwahardd darlledu deunydd allai fod yn sarhaus neu yn niweidiol mewn unrhyw amgylchiadau. Yr hyn sydd yn hanfodol i gydymffurfiad gyda'r Côd yw'r *ffordd* y caiff deunydd o'r fath ei ddarlledu gan y darlledwr. Yn unol â hynny, pwynt cychwyn Ofcom yw nid bod deunydd allai fod yn sarhaus neu yn niweidiol wedi ei ddarlledu ond a yw deunydd o'r fath wedi'i drafod yn briodol gan Channel Four.

1.11 Mae Ofcom wedi ystyried a oedd nifer o ddigwyddiadau yn y Tŷ yn cydymffurfio â'r Côd Darlledu. Mae wedi darganfod bod tri digwyddiad a ddarlledwyd yn ystod y gyfres yn torri'r Côd (gweler paragraffau 8.1 – 8.38 isod am esboniad llawn o ganfyddiadau'r toriad). Mae Ofcom wedi darganfod, mewn perthynas â'r tri digwyddiad canlynol, bod Channel Four wedi methu â thrafod y deunydd yn briodol er mwyn amddiffyn aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag deunydd sarhaus:

- Sylwadau am Goginio yn India (darlledwyd 15 Ionawr 2007)
- Sylw "Fuck off home" (darlledwyd 17 Ionawr 2007)
- Sylw "Shilpa Poppadom" (darlledwyd 18 a 19 Ionawr 2007)

1.12 Mae Ofcom hefyd wedi darganfod, mewn perthynas â nifer o ddigwyddiadau eraill, bod Channel Four naill ai ddim yn torri'r Côd ac ar un achlysur, mae

[2] Mae S4C wedi dibynnu ar gynrychioliadau Channel Four i Ofcom.
[3] Adran 265(3) Deddf Cyfathrebiadau 2003

Ofcom wedi darganfod bod y mater wedi ei ddatrys. Gweler paragraffau 6.1 i 7.12 am resymu Ofcom ar y digwyddiadau hyn.

1.13 Mae *Big Brother* yn rhaglen adloniant ac felly mae gwylwyr yn gweld yr hyn sydd yn digwydd yn y Tŷ fel 'adloniant'; maent hefyd yn ei weld fel 'realiti' h.y. maent yn edrych ar y digwyddiadau fel digwyddiadau go iawn sydd yn digwydd i bobl go iawn. Golyga hyn y gall y gynulleidfa fynd yn wirioneddol bryderus am les y preswylwyr, ond gyda'r wybodaeth a'r disgwyliad y caiff unrhyw ymddygiad difrifol broblematig neu wrth gymdeithasol ei drafod yn briodol. Mae hyn wedi dod yn un o'r safonau a dderbynnir yn gyffredinol am *Big Brother*.

1.14 Mae Channel Four, yn fformat rhaglen *Big Brother,* wedi sefydlu amrywiol fecanweithiau golygyddol lle y gellir herio ymddygiad amhriodol yn y Tŷ. Er enghraifft trwy drafodaeth yn yr Ystafell Dyddiadur, gall Big Brother wynebu a cheryddu preswylwyr am eu hymddygiad ac felly gweithredu fel beirniad pwysig i'r hyn y gall y cyhoedd ei ddirnad fel iaith neu ymddygiad sarhaus. Mae ymatebion preswylwyr, ymyriadau Big Brother a'r Ystafell Dyddiadur oll yn rhan o bensaernïaeth cyfarwydd y rhaglen a'r cyd-destun y gall Channel Four oddi mewn iddo, ddarlledu deunydd allai fod yn sarhaus.

1.15 Ond mewn perthynas â'r digwyddiadau a amlinellir yn 1.11 uchod methodd Channel Four yn ddigonol â chymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol trwy gyfiawnhau cynnwys deunydd sarhaus yn ôl ei gyd-destun. Barn Ofcom yw, pan ddarlledwyd y tri digwyddiad hwn, methodd Channel Four yn ddigonol â mynd i'r afael â'r potensial o sarhad neu gadawyd yr ymddygiad hwn heb ei herio. Esgorodd hyn ar achosi sarhad i nifer fawr iawn o wylwyr.

1.16 Yn eithriadol, yn amgylchiadau'r achos hwn, barnodd Ofcom bod y berthynas rhwng y digwyddiadau a ddarlledwyd ac ymwybyddiaeth cyffredinol Channel Four o'r digwyddiadau o fewn y Tŷ yn berthnasol o ran cydymffurfiad. Felly gofynnwyd i Channel Four gyflwyno unrhyw ddeunydd perthnasol nas darlledwyd. Wrth benderfynu gosod sancsiwn, mae Ofcom wedi cymryd i ystyriaeth, yn ychwanegol at y digwyddiadau a ddarlledwyd, y darnau o ffilm o'r Tŷ nas darlledwyd.

1.17 Roedd y darnau o ffilm nas darlledwyd yn cynnwys deunydd oedd yn ôl-ddyddiedig i ddarlledu dau o'r digwyddiadau y mae Ofcom wedi'i ddarganfod fel rhai yn torri'r Côd. Roedd y deunydd hwn yn cynnwys sgyrsiau rhwng y preswylwyr oedd yn addysgiadol o'r perthnasau, tensiynau ac agweddau yn y Tŷ ar yr amser neilltuol hwn ac a gofnodwyd fel 'hiliol' ar y pryd gan Brighter Pictures, y cynhyrchydd.

1.18 Nid oedd Channel Four yn ymwybodol o'r deunydd hwn ar yr amser perthnasol ac felly nid oedd yn gallu ei gymryd i ystyriaeth wrth wneud ei benderfyniadau golygyddol ynglŷn â sut i drafod darllediad y ddau ddigwyddiad hwn. Mae Ofcom yn ystyried nad oedd prosesau cydymffurfio Channel Four yn amlwg yn ddigonol yng ngoleuni'r methiant hwn ac y dylai Channel Four fod wedi bod yn llawer mwy rhagweithiol ar yr adeg hwn i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r holl ddeunydd perthnasol. Mae Channel Four wedi cyflwyno mai toriad mewn cyfathrebu oedd hyn rhyngddo ef a Brighter Pictures, y mae yn ystyried oedd wedi deillio o fethiant gan y cynhyrchydd i dynnu sylw Channel Four at y deunydd ar unwaith. Beth bynnag yw'r rheswm dros y methiant hwn mewn cyfathrebu, nid yw hyn yn esgusodi Channel Four rhag ei rwymedigaethau o dan ei drwydded i gydymffurfio gyda'r Côd.

1.19 Mae Ofcom wedi darganfod bod methiant difrifol o fewn y gweithdrefnau cydymffurfio yn Channel Four oedd yn golygu nad oedd yn gyfan gwbl ymwybodol o'r digwyddiadau yn y Tŷ fel ei fod yn gallu trafod deunydd allai fod yn sarhaus trwy ei fecanweithiau golygyddol. Yn ein barn ni, byddai darlledwr cyfrifol oedd wedi gweld y deunydd hwn, ar adeg ei recordio, wedi trafod y sefyllfa oedd yn datblygu yn y Tŷ yn wahanol iawn er mwyn sicrhau cydymffurfiad âr Côd.

1.20 Mae Ofcom hefyd yn ystyried bod Channel Four wedi methu, yn ei drafod o'r digwyddiadau a ddarlledwyd, i gymryd i ystyriaeth effaith cynyddol y digwyddiadau yn y Tŷ. Roedd dealltwriaeth y gynulleidfa o'r digwyddiadau yn y Tŷ ac yn enwedig y bwlio hiliol honedig, yn newid wrth i'r gyfres ddatblygu ac felly daeth sylwadau y gellid mewn amgylchiadau eraill fod wedi eu dehongli fel 'ffiniol' o ran sarhad yn llawer mwy sarhaus o dderbyn beth oedd yn digwydd yn y Tŷ, yn ogystal â thu hwnt i'r Tŷ, yn y byd y tu allan.

1.21 **Mae Ofcom yn ystyried bod y toriadau gan Channel Four o'r Côd Darlledu, o'i cymryd gyda'i gilydd, yn dangos methiant difrifol i ddefnyddio safonau a dderbynnir yn gyffredinol. Ym marn Ofcom, ni wnaeth Channel Four gymryd i ystyriaeth yn iawn effaith gynyddol y digwyddiadau yn y Tŷ. Ychwanegwyd ymhellach at y camfarnu golygyddol hwn gan y ffaith nad oedd Channel Four yn ymwybodol ar yr amser priodol o'r deunydd perthnasol nas darlledwyd.**

1.22 **Yn ngoleuni canfyddiadau Ofcom ac wedi cymryd i ystyriaeth y cynrychioliadau a wnaethpwyd gan Channel Four, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylai osod sancsiwn statudol ar Channel Four ac S4C.**

1.23 Mae gan y Pwyllgor amrediad o sancsiynau statudol ar gael iddo. Yn yr achos hwn mae'r Pwyllgor yn ystyried mai'r sancsiwn mwyaf priodol yw ei gwneud yn ofynnol i Channel Four ac S4C ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom ar ffurf a bennir gan Ofcom. Ymhellach, penderfynodd y Pwyllgor y dylid darlledu hwn ar dri achlysur gwahanol pan y byddai'n cyrraedd y nifer uchaf o wylwyr perthnasol. Hynny yw, ar ddechrau rhaglen gyntaf y gyfres newydd o *Big Brother* ac ar ddechrau ei raglen ail fersiwn y bore canlynol a hefyd ar ddechrau'r sioe troi allan gyntaf.

1.24 Mae'r Pwyllgor wedi cymryd i ystyriaeth yn ei benderfyniad ynglŷn â'r sancsiwn priodol i'w osod, y ffaith bod Channel Four wedi gweithredu'n brydlon cyn gynted ag y daeth yn ymwybodol o'r deunydd heb ei ddarlledu i ymarfer rheolaeth dros ddigwyddiadau dilynol yn y Tŷ; a'i fod wedi cynnal adolygiad llawn o'i raglen cydymffurfio a sefydlu gweithdrefnau a chanllawiau cydymffurfio mwy cynhwysfawr. Byddai'r Pwyllgor yn cymryd unrhyw fethiant cydymffurfio yn y dyfodol fyddai'n arwain at sefyllfa debyg ag y mae'r Pwyllgor wedi delio ag ef yn yr achos hwn yn ddifrifol iawn.